

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanedi a gynhaliwyd ar nos
Fercher, Ionawr 3, 2018 yn Neuadd Gymunedol Tycroes**

Cofnod rhif 1 – Aelodau'n Bresennol

Cynghorwyr:

A Blackley
A Evans
B Thomas
G Thomas
B D Davies
S A Evans
L Griffiths
T Higgins
C Higgins
M Nicholas
C Davies
M Davies
Emyr Davies

Y Cadeirydd, y Cynghorydd M Nicholas, oedd yn llywyddu ar y cyfarfod
--

Hefyd yn bresennol - y Clerc, David Davies, a'r Swyddog Datblygu Cymunedol, Sarah McColl-Dorion.

Cofnod rhif 2 - Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddiwrth y Cynghorwyr Byron Evans, Sharon Lyle ac Ian Davies.

Cofnod rhif 3 – Datganiadau o Fuddiant

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant ynghylch y materion ar yr agenda.

Cofnod rhif 4 – Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Roedd y Cadeirydd am ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd ynghylch y materion canlynol:

- Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Lleng Brydeinig a chyflwynwyd £371.00 iddynt.
- Roedd y Cadeirydd am leisio barn ar y cyhoeddusrwydd gwael a dderbyniwyd yn ddiweddar oddiwrth yr AC a'r AS ynghylch yr arwyddion a osodwyd yn yr ardaloedd chwarae. Roedd yr Aelodau wedi uniaethu â chonsyrn y Cadeirydd bod gwleidyddion yn ymddwyn yn y fath ffordd anaddas. Roedd y Clerc wedi cadarhau ei fod wedi ymateb

drwy gyfrwng llythyron i'r wasg, ac wedi ysgrifennu at yr AS, ond heb dderbyn ymateb oddiwrthi.

- Dywedodd y Cadeirydd bod gwahoddiad wedi'i dderbyn i ddodi enw ymlaen am gyfle i fynychu Garddwest y Frenhines.

Cofnod rhif 5 – Llofnodi'r Cofnodion – Cyfarfod y Cyngor, Rhagfyr 6^{ed} 2017

Penderfynwyd derbyn cofnodion y cyfarfod uchod, a ddsbarthwyd yn flaenorol, fel y'u darllenwyd, eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir a chyfreithlon o'r materion a drafodwyd.

Rheswm—cadw at ofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972, at12, para 41 (1) a (4) ac adran 99.

Cofnod rhif 6 – Materion yn codi o'r Cofnodion blaenorol

Apêl y Pabi

Nodwyd bod y taliad o £371.00 i Apêl y Pabi yn cynnwys casgliad o £271.00 a thâl o £100 am y Torchau.

Cofnod rhif 5 – Howard a Helena Jones

Roedd yr Aelodau wedi ystyried y cais am gymorth i gyhoeddi'r llyfr ar hanes ardal Llanedi a dderbyniwyd yn y cyfarfod diwethaf. Dywedodd y SDC ei bod wedi trafod gyda'r ymgeiswyr yr opsiwn o wneud cais am gyllido torfol ond, hyd yn hyn, nid oedd wedi derbyn ymateb cadarnhaol. **Penderfynwyd** bod y SDC a'r Cynghorydd Alan Evans yn cwrdd â'r ymgeiswyr i drafod y mater ymhellach, ac yn adrodd yn ôl i'r Cyngor mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Cofnod rhif 6 – Pwyllgor yr Ŵyl

Roedd yr Aelodau wedi nodi nad oedd y Cadeirydd wedi ymateb i'r sylwadau negyddol oddiwrth Mr Steve Lloyd-Janes yn y wasg/ ar Facebook ynghlyn â chyfraniad y Cyngor i Bwyllgor yr Ŵyl. Nodwyd bod preswylwyr yr Hendy yn cyfrannu 31% y pen yn fwy na phreswylwyr Pontarddulais, felly roedd y feirniadaeth hon yn gwbl anaddas.

Cofnod rhif 10 – Trefniadau Bancio

Roedd y Clerc wedi cadarnhau bod y Cyngor wedi sefydlu System Fancio Electronig gyda Banc Lloyds.

Cofnod rhif 13 – Parc yr Hendy

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd G Thomas am y sefyllfa gyfredol ynghylch y nifer o dai sy'n cael eu hadeiladu gan Gartrefi Persimmon. Cytunodd i ymgynghori ymhellach gyda'r Adran Gynllunio i weld os oedd tebygrwydd y byddai taliad yn cael ei wneud yn y flwyddyn ariannol hon.

Cofnod rhif 14 – Nia Griffiths

Dyweddodd y Clerc ei fod wedi ysgrifennu at Nia Griffiths, AS, i fynegi consymr y Cyngor ynghylch ei sylwadau cyhoeddus negyddol diweddar am waith y Cyngor, ond nid oedd wedi derbyn ymateb i'w lythyr.

Cofnod rhif 7 – Adroddiad y Swyddog Datblygu Cymunedol

Cafwyd trosolwg gan y SDC o'i hadroddiad, a ddisbarthwyd cyn hyn, ac a atodir i'r cofnodion. Cymeradwywyd y materion canlynol gan y Cyngor:

Gweithgareddau Cymunedol

Penderfynwyd clustnodi'r swm o £200, i'w ddefnyddio ar ddisgresiwn y SDC, i sefydlu gweithgareddau cymunedol yn yr ardal. Nodwyd bod y Bird in Hand wedi cynnig cinio am ddim i breswylwyr lleol ar Ddydd Nadolig. Nodwyd bod sawl un o'r mentrau sy'n cael eu datblygu gan y SDC yn gwireddu cyfrifoldebau'r Cyngor, yn unol â'r Ddeddf Llesiant.

Roedd yr Aelodau am ddiolch i'r SDC am ei gwaith ardderchog ar ran y Cyngor.

Cofnod rhif 8 – Ardaloedd Chwarae

Nodwyd bod cwyn wedi'i derbyn oddiwrth y Cyngorydd I Davies ynghylch cyflwr yr ardal chwarae. **Penderfynwyd** bod y Clerc, y SDC a'r Cadeirydd yn cwrdd â Hanna Cridland i drafod y mater. Nodwyd bod y gwaith arfaethedig i'r ardal chwarae yn Coopers wedi'i gwblhau. **Penderfynwyd** bod y Cadeirydd yn trefnu tipyn o gyhoeddusrwydd parthed â'r mater hyn.

Cofnod rhif 9 – Clwb Criced

Cyflwynodd y Clerc a'r SDC gopi o'r cynllun terfynol o ail-ddatblygiad arfaethedig y Clwb Criced i'r Aelodau. Roedd yr aelodau wedi gwneud y sylwadau canlynol:

- Mae angen gwirio bod yr ystafelloedd newid ar gyfer Criced yn ddigonol, y enwedig gan fod cais wedi'i wneud am ragor o gyfleusterau toiled i'r anabl.
- Mae angen torri i mewn i lefel yr islawr i weld os yw hi'n ymarferol wneud defnydd o'r gofod hwn. Nodwyd bod risg na fydd hi'n bosibl cynnwys y cynllun yn y lleoliad hwn.

Cytunwyd ei bod yn addas bod y cynllun terfynol yn cael ei ddisbarthu gan y SDC ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, gan fod hyn yn un o ofynion penodol yr asiantaethau grant wrth i ni wneud gyflwyno cais am gyllid atynt.

Cofnod rhif 10 – Aros ar unrhyw adeg – Heol y Parc

Penderfynwyd peidio gwrthwynebu'r cynnig i wahardd aros ar unrhyw adeg yn Heol y Parc / Maesyderi, yr Hendy.

Cofnod rhif 11 – Adroddiadau Cyllid

Derbyniodd y Cyngor Adroddiad Cyllid a oedd yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Cysoniad Banc
- Adroddiad ar yr Incwm a Dderbyniwyd
- Adroddiad ar y Gwariant arfaethedig
- Adroddiad ar dderbyniadau a thaliadau yn ôl pennawd cyllideb

Penderfynwyd nodi'r adroddiadau hyn, ac ystyried adolygiad o'r amrywiol ganolfannau costau a chontractwyr a ddefnyddir gan y Cyngor i dorri porfa cyn gosod cytundebau yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Cofnod rhif 12 – Cyllid y Cyngor

Penderfynwyd galw cyfarfod o'r Cyngor ar ddydd Iau, Ionawr 25^{ain} am 6.30yh yn Neuadd Tycroes i gytuno ar gyllideb a gosod praesept am y flwyddyn ariannol nesaf. Yn ychwanegol, **pendefynwyd** ystyried yr eitemau canlynol i'w cynnwys yn y gyllideb os bydd cyllid yn caniatâu:

- Hysbysfyrddau yn dangos llwybrau cerdded, a thafleuni.
- Cyllideb ar gyfer y Nadolig.
- Ystafelloedd Newid Cymunedol Tycroes.
- Datblygu Cymunedol.
- Basgedi Crog.
- Atgyweiriadau i Neuadd yr Eglwys, Llanedi.
- Darparu meinciau newydd.
- Plannu blodau gwyllt.
- Cynigion ar gyfer Clwb Rygbi yr Hendy.
- Ardal Chwarae Talyclun.
- Atgyweirio drws yr hysbysfwrdd yn Nhalyclun, ac ail-leoli'r hysbysfwrdd.
- Arolwg Cymunedol.

Cofnod rhif 13 – Trosglwyddo Asedau

Penderfynwyd bod y Cyngor yn ystyried trosglwyddo ased Ardal Chwarae Talyclun yn ddarostyngedig i dderbyn manylion o'r ardal arfaethedig sydd i'w drosglwyddo,

Cofnod rhif 14 – Cymorth Ariannol

Penderfynwyd nodi'r ceisiadau am gymorth ariannol a dderbyniwyd, ac i anfon llythyr safonol at yr holl ymgeiswyr yn eu hysbysu o bolisi'r Cyngor ynghylch dyrannu cymorth ariannol.

Cofnod rhif 15 – Cynllunio Defnydd Tir – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref

(a) Datblygiadau Arfaethedig

Penderfynwyd cofnodi'r ceisiadau canlynol yn y cofnodion:

Rheswm: Nid oedd yr aelodau wedi gofyn i'r arsylwadau/gwrthwynebiadau mewn perthynas â'r datblygiadau arfaethedig gael eu cyfleu i Awdurdod Cynllunio'r Sir.

- S/35215 Datblygiad preswyl o 51 tŷ annedd ynghyd â gwaith cysylltiedig ar dir oddiar Clos y Benallt Fawr, Fforest. Cartrefi Persimmon, Gorllewin Cymru – Luke Davies.
- S/36546 Adfer, ail-wampio ac ymestyn y Clwb Chwaraeon dau-lawr presennol i gynnwys neuadd gymunedol ynghyd â chyfleusterau cynnal, gwell mynediad at y safle ac ehangu'r ddarpariaeth parcio ceir ar y safle yng Nghlwb Criced yr Hendy, Heol Bryngwili, yr Hendy. Cyngor Cymuned Llanedi – David Davies.
- S/36588 Estyniad un llawr arfaethedig i ystlyslun 95 Fforestfach, Tycroes, Rhydaman. Miss H Watson.
- S/36587 Estyniad dau lawr i gefnlun tai annedd yn 12 Tirprys, Tycroes, Rhydaman. Mr D Rees.
- S/36609 Amrywiad ar amod rhif 1 S/13960 (2 flynedd arall i gyflwyno cais materion a gedwir yn ôl) yng Ngwaith Wernos, Heol Ddu, Tycroes. P D Edenhall – Mr Andy Cotton.

(b) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Gymeradwy-wyd

Penderfynwyd nodi'r ceisiadau canlynol i'r cofnodion.

Ni ddaeth unrhyw rai i law.

(c) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Wrthodwyd

Ni ddaeth unrhyw rai i law.

(ch) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Apeliwyd

Ni ddaeth unrhyw rai i law.

Cofnod rhif 16 – Adroddiadau y Cynghorwyr Sir – Cyrff Allanol

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd G Thomas ynghylch y cais cynllunio a gyflwynwyd am safle i deithwyr yn y gymuned.

Cofnod rhif 17 – Terfysg Beca

Penderfynwyd gohirio'r mater hwn i'w ystyried gan aelodau Ward yr Hendy

Cofnod rhif 18 - Masnach Deg

Penderfynwyd bod y Cynghorydd A Blackley yn cynrychioli'r Cyngor fel aelod o Grŵp Masnach Deg Llanelli.

Cofnod rhif 19 - Clwb Rygbi yr Hendy

Roedd y Cyngor wedi derbyn cais oddiwrth Glwb Rygbi yr Hendy ynghlyn â'r angen i wneud gwaith ynghylch lleoli cynhwysydd newydd ger y maes chwarae ym Mharc yr Hendy. **Penderfynwyd** cymeradwyo'r gwaith ar yr amod bod unrhyw ddifrod a wneir yn cael ei adfer i foddhad y Cyngor.

Cofnod rhif 20 - Gohebiaeth Gyffredinol

Penderfynwyd nodi'r ohebiaeth ganlynol i'r cofnodion: -

Awdur	Pwnc
Clwb Rygbi yr Hendy	Cais am gymorth gyda'i rhaglen waith.
Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Uwchraddio Systemau TG hŷn

Daeth busnes y Cyngor i ben am 9.00yh

**Llofnod Dyddiad
Cadeirydd**